

CYNGOR SY'N WIR GEFN I'R TEULU

Nodyn i'r siaradwr:

Mae perthnasau cariadus a chlôs rhwng aelodau'r teulu yn gofyn am amser ac ymdrech, ond maen nhw'n bosibl. Cyflwyna olwg realistig o'r heriau sy'n codi wrth geisio teulu hapus. Hyba ddefnydd o egwyddorion y Beibl fel modd o ddatrys problemau

MAE DUW'N DYMUNO HAPUSRWYDD I'CH TEULU CHI (3 mun.)

Mae pob teulu yn dyheu am hapusrwydd, ond mae geiriau sy'n brifo, amarch, anffyddlondeb, a diffyg agosatrwydd yn difetha rhai

Dyma'r problemau sy'n adlewyrchu natur y "dyddiau diwethaf" (2Ti 3:1-5)

Mae Jehofa yn dymuno hapusrwydd i deuluoedd, felly mae'n cynnig arweiniad (Esei 48:17, 18)

Wrth roi cyngor y Beibl ar waith, mae modd goresgyn problemau yn y teulu, hyd yn oed y rhai cymhleth

ANHUNANOLDEB YW'R ALLWEDD I HAPUSRWYDD TEULUOL (8 mun.)

Hunanoldeb yw gwreiddyn llawer o broblemau teuluol

Mae Satan yn hybu'r syniad mai hunan-les sy'n arwain at hapusrwydd

Ond mewn gwirionedd, mae rhoi yn dod â mwy o hapusrwydd (Act 20:35)

Mae cariad anhunanol yn rhwymyn sy'n uno **[Darllena Colosiaid 3:14]**

Nid emosiwn yn unig yw gwir gariad, gweithredoedd anhunanol sy'n ei amlygu (1Co 13:4-7)

Mae gŵr anhunanol yn blaenoriaethu anghenion ei deulu yn hytrach nag anghenion ei hun **[Darllena Colosiaid 3:19, 21]**

Yn gyhoeddus neu'n breifat, mae o'n garedig a thyner, ac yn trin ei deulu ag urddas

Mae gwraig anhunanol yn gefn i'w gwr, ac yn gweithio'n galed er lles y teulu **[Darllena Colosiaid 3:18]**

Mae plant sy'n ufudd ac yn anhunanol, yn cyfrannu at gartref hapus a heddychlon **[Darllena Colosiaid 3:20]**

MAE MODD GORESGYN RHWYSTRAU I HAPUSRWYDD TEULUOL (16 mun.)

Gall teulu fod yn rhanedig o ran crefydd, neu gall rhai o'r aelodau anwybyddu cyngor y Beibl

Bydd Jehofa yn bendithio'r rhai sy'n hybu heddwch er gwaethaf amgylchiadau anodd (Col 3:23, 24)

Gall cymar sy'n addoli Jehofa ddylanwadu'n dda ar ei gymar di-gred (1Pe 3:1, 2; *w10-E* 5/15 13-14 ¶6-10)

Weithiau mae ymateb plant i ddisgyblaeth eu rhieni yn ddiffygiol neu'n wrthryfelgar!

Siaradwch yn agored â'ch plant, gwrandewch yn astud, rhesymwch yn amyneddgar (*g-E* 10/11 16-20; *g-E* 8/07 8)

Rieni, daliwch ati i helpu'ch plant, yn eu cywiro yn amyneddgar (Ga 6:9)

Ffraelo â'ch gilydd gan ddefnyddio geiriau cas yw un o'r arferion drwg sydd wedi ymwreiddio yn ambell i deulu

Mae modd goresgyn y fath arferion drwy roi egwyddorion y Beibl ar waith **[Darllena Colosiaid 3:12]**

Dysgwch sut i ddelio â phroblemau ac anghytundebau mewn ffordd heddychlon (*w08-E* 5/1 10-12; *g-E* 2/13 4-5)

Byddwch yn amyneddgar, a chydabyddwch y ffaith ei bod yn cymryd amser er mwyn ffurfio arferion newydd

Gwnewch y penderfyniad i ollwng gafael ar deimladau chwerw pechodau'r gorffennol **[Darllena Colosiaid 3:13]**

Os oes drwgdybio rhwng cwpl priod, mae modd gwella'r sefyllfa

Efallai bod un cymar wedi gwyllo pornograffi, neu wedi meithrin perthynas emosiynol amhriodol tu allan i'r briodas

I atgyweirio'r niwed, mae'n rhaid i'r cymar a wnaeth y niwed newid ei ymddygiad ac ymddiheuro (Col 3:5, 9)

Trwy feithrin gonestrwydd yn eu sgwrs, gall parau priod ailadeiladu ymddiriedaeth

Mae godineb yn frad a all ladd priodasau

Rhaid i'r cymar dieuog pwyso ei benderfyniad i ysgaru neu beidio yn ofalus (Mth 5:32)

Os mai maddau yw'r dewis, rhaid i'r cwpl cydweithio i gryfhau eu priodas (*w12-E* 5/1 12-15)

CRYFHEWCH EICH YMRWYMIAD I'CH TEULU (3 mun.)

Eich geiriau a'ch gweithredoedd sy'n dangos eich bod yn benderfynol o wneud eich teulu yn un llwyddiannus (*g-E* 6/15 8-9)

Mae ymrwymiad cryf yn sail i ddatrys problemau

Bydd Jehofa yn bendithio'ch ymdrechion (Dia 16:3)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]